PWY ALL GAEL EI ACHUB?

Nodyn i'r siaradwr:
Helpwch y gynulleidfa i weld yr angen inni gael ein hachub rhag pechod, rhag dioddefaint, a rhag marwolaeth. Pwysleisiwch werth y pridwerth wrth i chi ddangos yr hyn sy'n rhaid ei wneud i brofi lles y ddarpariaeth gariadus hon. Gwnewch yn eglur y gall pawb ddyfalbarhau a chael eu hachub

EIN HACHUB RHAG BETH? (4 mun.)

Cafodd dyn ei greu gyda'r dyhead i fyw am byth (Preg 3:11)

'Wnaeth Duw erioed fwriadu inni fynd yn sâl a marw (*w*99 4/15 5-8)

Ond wrth i Adda bechu fe ddaeth yn gyfrifol am ddod â dioddefaint a marwolaeth arno'i hun a phawb o'i ddisgynyddion (Gen 3:19; Job 14:4)

'Doedd gan Adda 'nawr mo'r bywyd perffaith gwreiddiol i'w drosglwyddo i'w blant yn etifeddiaeth (*w*99 3/15 9; 2/15 13-14)

Mae bodau dynol oll yn teimlo effeithiau pechod Adda i'r byw (Rhuf 5:14; 8:20-22)

Mae hyd yn oed gweision ffyddlon Duw yn gorfod derbyn y sefyllfa (Dewiswch rai adnodau o blith y rhannau canlynol i'w darllen: Genesis 27:46; 47:9; 1 Brenhinoedd 19:4; Jona 4:8; Rhufeiniaid 7:22-24)

Mae'n eglur felly fod angen achub pawb rhag bod yn gaeth i bechod a marwolaeth, ac angen ar bawb i gael eu rhyddhau oddi wrth y pryderon sy'n rhan annatod o fywyd dynol amherffaith (Job 14:1; Salm 90:10)

DARPARIAETH JEHOFAH I'N HACHUB NI (10 mun.)

'Rydym oll wedi etifeddu cyflwr pechadurus—gan gynnwys marwolaeth—gan Adda (Rhuf 5:12)

Mae Jehofah yn "caru cyfiawnder a barn," ac yn ôl ei gyfraith i'r Israeliaid 'roedd gofyn bywyd am fywyd (Salm 33:5; Num 35:20, 21)

Fe gollodd Adda fywyd *perffaith;* felly, yn ôl barn a chyfiawnder, fe fyddai angen aberthu bywyd dynol *perffaith* arall (*w*91 2/15 12-13)

Gan fod pechod ynom o ddydd ein geni, 'does gan neb ohonom ni'r bywyd perffaith hwnnw i'w gynnig (Salm 49:6-10)

Mae hi fel petaem ni oll mewn peryg' o golli'n bywydau oherwydd rhyw afiechyd angeuol, a'r un pryd heb yr adnoddau i dalu am y gofal meddygol i'n gwella

Yn ei gariad fe drefnodd Jehofah i waredu'r ddynoliaeth bechadurus mewn ffordd gwbl gyfiawn (Deut 32:4; 1Ioan 4:8; *w*96 3/15 21-2)

Wedi gwrthryfel Eden, fe gyhoeddodd ddarpariaeth ar gyfer gwaredigaeth, addewid i achub dynion edifar (Gen 3:15)

Fe drefnodd Jehofah i'w Fab roi ei fywyd dynol perffaith yn lle'r bywyd perffaith a gollodd Adda (Ioan 10:17, 18; *w*99 2/15 14-16; *ws* 162-4)

Fe aned Iesu heb bechod; felly, 'roedd ganddo'r union beth 'roedd Adda wedi'i golli—bywyd dynol perffaith

O'i wirfodd, ar Nisan 14, 33 C.C., fe adawodd Iesu i'w wrthwynebwyr ei ladd, a dyna sut talodd e'r pris am ein pechodau (1Tim 2:5, 6)

Wrth iddo gadw'n ffyddlon, fe'i gwnaeth hi'n bosib' inni gael ein hachub rhag pechod a marwolaeth (1Cor 15:45)

Pan fu Iesu farw'n ddibechod 'roedd yr hawl ganddo o hyd i fywyd perffaith dynol—yn hollol wahanol i Adda

Pan ddychwelodd i'r nef fe gyflwynodd Iesu werth ei aberth i Jehofah (Heb 9:24; *w*99 2/15 16)

Fe brynodd Iesu'r ddynoliaeth bechadurus

Hefyd, fe ddaeth yn Dad newydd inni yn lle Adda (Eseia 9:6)

MAE GAN JEHOFAH DDIDDORDEB MAWR YN EIN GWAREDIGAETH (7 mun.)

Drwy gyfrwng y pridwerth mae Jehofah yn mynegi i'r eithaf ei gariad angerddol a'i drugaredd, a'r un pryd yn ffyddlon weithredu safonau dyrchafedig ei gyfiawnder (*it*-2 19)

Yn wir, aberth Crist ydi mynegiant eithaf cariad (*w*87 2/15 12-14)

Dangosodd Jehofah ei gariad mawr drwy anfon ei unig-anedig Fab (Ioan 3:16)

Yn ei ufudd-dod i weithredu'n Brynwr dynolryw y gwelwn ni gariad Iesu'n amlwg (Ioan 15:13)

Dymuniad Jehofah ydi i bawb edifarhau a chael eu hachub (Rhuf 2:4; 2Pedr 3:9)

Mae drws cul iachawdwriaeth yn dal ar agor i bob un sy'n gymwys (Luc 13:23, 24)

YR HYN MAE DISGWYL I NI'I WNEUD I GAEL EIN HACHUB (10 mun.)

Yn ôl amryw o grefyddau, peth hawdd, syml ydi gwaredigaeth

Mae rhai yn dweud fod credu yn Iesu yn ddigon (*g*90 5/22 14)

Mae eraill yn credu 'once saved, always saved' (*w*92 5/1 15)

Mae eraill wedyn o'r farn y bydd Duw yn rhoi pardwn i *bob* pechadur drwy'r byd i gyd (*rs* 356-8)

Yn y Beibl mae 'na ofynion pendant ar gyfer cael ein hachub

Yn gynta', rhaid cynyddu yn ein gwybodaeth am Dduw a Iesu—dod i'w 'nabod nhw'n dda (Ioan 17:3)

No. 126-W 6/00

Mi fydd hyn yn ei gwneud yn haws inni roi ffydd yn Nuw (Heb 11:6)

Mi fydd ffydd yn ein cymell ni i edifarhau am ein pechodau, ac yna droi at Dduw (Actau 3:19)

Wrth rannu'n gwybodaeth newydd ag eraill mi fyddwn ni'n rhoi ein ffydd ar waith wrth inni gymeradwyo ffordd y gwirionedd mewn gair a gweithred (Math 5:15, 16; Rhufeiniaid 10:10)

Mi fydd ein cariad at Dduw yn ein cymell ni i ymgysegru iddo

Gan weddïo'n bersonol, medrwn ddweud wrth Jehofah ein bod yn ymgysegru i wneud ei ewyllys (Heb 10:7)

Mae bedydd yn dilyn ymgysegru (Math 28:19, 20)

Ar gyfer y rhai sy'n ddigon hen i benderfynu gwasanaethu Duw mae bedydd (Actau 2:41)

RHAID DYFALBARHAU CYN CAEL EIN HACHUB (10 mun.)

Wedi inni ymgysegru, mi fydd Jehofah yn disgwyl inni gadw'n haddewid a byw y gwirionedd (Preg 5:4, 5)

Mi fydd y Diafol yn manteisio ar bob cyfle i'n rhwystro ni rhag gwasanaethu Jehofah, felly mae'n rhaid wrth ddyfalbarhad (Math 24:13; 1Pedr 5:8)

Mae dyfalbarhau yn golygu mwy na wynebu rhwystrau; mae hefyd yn cynnwys 'dilyn ffordd Duw' a gwneud gweithredoedd daionus (Salm 50:23)

Rhaid inni weithredu'r gair, nid gwrando'n unig (Luc 6:46-49; Iago 1:22-25)

Mae dyfalbarhau yn anodd (Math 16:24; *w*93 9/15 9-11)

Ar adegau bydd y dagrau'n llifo (Salm 126:5, 6)

Hyd yn oed wedyn, mae'n hanfodol sefyll yn gadarn, gyda'r hyder fod Jehofah yn gwybod am ein dyfalbarhau ac yn ei werthfawrogi (Heb 6:10)

EIN HACHUB NI (4 mun.)

Mae Jehofah yn gallu gwaredu'r duwiol o'u treialon (1Cor 10:13; 2Pedr 2:9)

Mi waredodd e Noa a'i deulu rhag y Dilyw (2Pedr 2:5)

Fe waredodd Duw yr Israeliaid a hefyd dyrfa gymysg o ddieithriaid o'r Aifft (Exodus 6:6)

Mi arbedodd e Gristnogion rhag dinistr Jerwsalem yn 70 C.C. (Math 24:15, 22)

Mi all Jehofah hefyd ein cadw ni'n ddiogel pan ddaw distryw ar fyd Satan (Salm 37:29, 34)

Mae'n bosib' i unrhyw un sy'n derbyn darpariaethau Duw ar gyfer bywyd gael gwaredigaeth (Deut 30:11-14)

Neséwch at Jehofah mewn gweddi (Phil 4:6, 7)

Ymgollwch yn y Gair yn gyson (Salm 1:1-3; 94:19)

Cadwch yn agos at y gynulleidfa (Heb 13:17)

Fe gaiff pawb sy'n dymuno derbyn dŵr y bywyd yn rhad, ei achub (Dat 22:17)

(Glynwch yn glòs at y defnydd sy' wedi'i amlinellu, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. 'Does dim rhaid darllen pob testun a grybwyllir na gwneud sylwadau arnyn' nhw)